***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2003 Rhif 181 (Cy.31) (C.9)

# GOFAL CYMDEITHASOL, CYMRU
# PLANT A PHOBL IFANC, CYMRU

## Gorchymyn Deddf Mabwysiadu a Phlant 2002 (Cychwyn Rhif 1) (Cymru) 2003

*Wedi'i wneud - - 31 Ionawr 2003*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adran 148(6) o Ddeddf Mabwysiadu a Phlant 2002 (**1**) drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

(**1**) 2002 p.38. Rhoddwyd y pwerau i'r Gweinidog priodol. Ystyr Gweinidog priodol yw'r Cynulliad mewn perthynas â Chymru, a'r Ysgrifennydd Gwladol mewn perthynas â Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon (a.144(1) o'r Ddeddf). Ystyr Cynulliad yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru (a. 144(1) o'r Ddeddf).